CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH

17 Ionawr 2023, Trwy Zoom

am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng A Williams, E Williams, D ap Rhobert, W Williams, C McGregor, R Hughes, S Jones, H Davies, D Rees (Cyngor Sir), PC Howell Owens, G Owen (Clerc).	
YMDDIHEURIADAU: Cyng A Wyn, P Ellis	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng C McGregor. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod, gan gynnwys PC Howell Owens, y Community Beat Manager. Dywedodd PC Owens mai ei rôl yw lleihau'r galw ar waith yr Heddlu o fewn cymunedau. Hefyd mae o'n gallu drefnu i PCSOs fynychu'r ardal os oes angen. Trafodwyd cynnig y Cyngor Sir i gyflwyno system un ffordd o ganol Talwrn i'r ysgol gynradd. Dywedwyd pan gafodd y "Safe Route to Schools" ei roi ar waith y darparwyd cilfan, ond nid yw'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd. Mae cerbydau bellach yn parcio y tu allan i'r ysgol gan achosi rhwystrau. Bu digwyddiad yn diweddar pan yrrodd fan ddosbarthu yn gyflym heibio'r ysgol. Roedd yn rhaid i staff yr ysgol ddal plant yn ôl. Hefyd mae trigolion sy'n byw ar y lôn unffordd arfaethedig yn gwrthwynebu'r bwriad gan y bydd yn gwneud pethau'n anodd iddynt gan gynnwys symud gwartheg, defaid ayyb. Mae ceir hefyd yn parcio ar y gyffordd gyferbyn â'r ysgol (wal y Plas). Bydd y Cyng W Williams yn cyfeirio'r mater at Lywodraethwyr yr Ysgol a dywedodd PC Owens y byddai'n trefnu i PCSO fynychu er mwyn ceisio lleihau problemau. Mae'r Cadeirydd eisoes wedi anfon gwrthwynebiadau i'r Cyngor Sir.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 15.11.22. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng S Jones yn cynnig a Cyng W Williams yn eilio.
	Llofnod……Cadeirydd 21.02.23

4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Mynwent Llanddyfnan** (tap) Mae'r Cyng R Hughes wedi bod i'r fynwent i gael golwg ar y tap. Nid oes dŵr yn y tanc wrth ymyl yr eglwys ac mae'n llawn dail. Mae cwteri'r eglwys hefyd wedi torri. Dywedodd y Clerc ei fod wedi cyfeirio'r mater at y Ficer lleol, y Parch Steve Leyland. Mae'r Ficer wedi tynnu lluniau ac wedi cyfeirio'r mater at swyddfa eiddo'r Eglwys yng Nghymru yng Nghaerdydd. Bydd yn cysylltu â'r Clerc pan fydd yn cael ymateb.
4.2	**Llwybrau cyhoeddus** - Mae Cyng E Williams wedi cerdded rhai o'r llwybrau. Mae rhai wedi gordyfu ac nid yw'n bosibl eu cerdded. Cytunwyd i lunio cofrestr ynglŷn â pha lwybrau sydd angen sylw. Cynigiodd y Cyng W Williams osod cyhoeddiad ar dudalen Facebook Talwrn yn gofyn i drigolion pa lwybrau maen nhw eisiau eu torri.
4.3	**Pencampwr Iaith** – Mae Cyng E Williams wedi cynnig cynrychioli y Cyngor
4.4	**Community Beat Manager** – gweler 1
4.5	**VAR/2022/68 Bryn Brochan** - Darllenodd y Clerc ymateb gan yr Adran Gynllunio yn cadarnhau y bydd y llwybr troed o fewn tir Bryn Brochan
4.6	**Cyflwr Ffyrdd -** Dywedodd y Cyng D Rees ei fod wedi cyfeirio'r mater at y Cyngor Sir a bod y Gang Cymunedol wedi gwneud y gwaith angenrheidiol.
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
5.1	VAR/2022/68 Bryn Brochan – gweler 4.5
5.2	FPL/2022/186 - Cais llawn ar gyfer newid defnydd tir amaethyddol i faes carafan teithiol, newid defnydd yr adeilad allanol presennol i ddefnydd ategol i'r maes carafan ynghyd a gosod system trin carthffosiaeth yn Esgobaeth Bran, Llanbedrgoch - Mae'r Clerc wedi gwrthwynebu'r cais yn unol â chofnodion 23.08.22 pan drafodwyd y cais cyntaf gan y Cyngor.
5.3	Gorchymyn Rheoleiddio Traffig – Talwrn – gweler 1
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Pencampwr Iaith – gweler 4.3
6.2	Ambiwlans Awyr Cymru **-** Llythyr wedi ei dderbyn gan y Gwasanaeth ynglŷn â'r bwriad i gau safle Dinas Dinlle a'r posibilrwydd o symud i Ruddlan. Cytunodd yr Aelodau i wrthwynebu'r cynnig. Bydd y Clerc yn anfon llythyr o gefnogaeth
	Llofnod…….Cadeirydd 21.02.23

6.3	Fran a Dilwyn Parry - Mae llythyr wedi ei dderbyn gan Mr a Mrs Parry yn datgan eu bod wedi prynu Parc, Talwrn ac yn edrych i adnewyddu'r eiddo. Maen nhw'n gofyn a allan nhw gwrdd â'r cyngor i drafod y gwaith adnewyddu. Bydd y Clerc yn ymateb yn cadarnhau fod croeso iddynt gwrdd â'r cyngor yn ystod y cyfnod ymgynghori unwaith y bydd y cais wedi ei wneud.
7	**MATERION ARIANNOL**
7.1	Adolygiad cyllid - Derbyniwyd adroddiadau y Clerc/Swyddog Cyllid sydd yn cadarnhau bod digon o incwm a chronfeydd I gynnal chostau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol.
7.2	Praesept 2023-2024 – Cytunwyd y byddai'r praesept yn parhau ar £10500, heb unrhyw gynnydd. Cyng W Williams yn cynnig a'r Cyng D ap Rhobert yn eilio
	Cytunwyd i dalu:
7.3	Zurich Municipal £326.83 (Yswiriant y Cyngor)
7.4	Ynllais Cymru £245.00 (Hyfforddiant)
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Dywedodd y Cyng C McGregor fod yr Hen Ysgoldy wedi ei werthu ac y bydd yr arian yn mynd i Elusen Llanffinnan
9	**MATERION AR GYFER YR AGENDA NESAF**
9.1	Dywedodd y Cyng R Hughes bod y Cyngor Sir wedi addo gosod arwyddion yn y gilfan ger y sgwâr yn nodi bod cyfyngiad parcio o 4 awr. Nid ydynt wedi cyrraedd.
9.2	Mae wagen geffylau wedi ei pharcio yn y gilfan ger y sgwâr am gyfnodau hir.
9.3	Dŵr yn casglu ar y ffordd rhwng Bodlondeb - Hafan Deg
9.4	Mae cwlfert ar lôn yr ysgol yn gorlifo ac angen ei lanhau
9.5	Mae dŵr yn rhedeg ger yr hen siop ac yn mynd i faes parcio cyfagos
9.6	A all Biffa gau ochrau'r wagen wrth deithio?
	Llofnod…….Cadeirydd 21.02.23